# CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 9FED MEHEFIN, 2021

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd J.E. Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| F. Akhtar | K.V. Broom | C.A. Campbell | J.M. Charles |
| D.M. Cundy | S.A. Curry | C.A. Davies | W.R.A. Davies |
| T.A.J. Davies | G. Davies | H.L. Davies | I.W. Davies |
| J.A. Davies | K.Davies | S.L. Davies | E. Dole |
| J.S. Edmunds | D.C. Evans | H.A.L. Evans | L.D. Evans |
| R.E. Evans | W.T. Evans | S.J.G. Gilasbey | P. Hughes-Griffiths |
| A.D. Harries | T.M. Higgins | J.K. Howell | P.M. Hughes |
| A. James | J.D. James | R. James | D.M. Jenkins |
| G.H. John | C. Jones | B.W. Jones | D. Jones |
| G.R. Jones | T.J. Jones | H.I. Jones | A. Lenny |
| M.J.A. Lewis | K. Lloyd | K. Madge | S. Matthews |
| A.S.J. McPherson | E. Morgan | A.G. Morgan | D. Nicholas |
| B.D.J. Phillips | J.S. Phillips | D. Price | J.G. Prosser |
| B.A.L. Roberts | H.B. Shepardson | E.M.J.G. Schiavone | A.D.T. Speake |
| L.M. Stephens | B. Thomas | D. Thomas | E.G. Thomas |
| G.B. Thomas | G. Thomas | J. Tremlett | A.Vaughan Owen |
| D.T. Williams | D.E. Williams | | |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

W. Walters, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
J. Jones, Pennaeth Adfywio
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digidol
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

**Cyfarfod Rhithwir : 10.00 yb - 10.50 yb**

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen; P Edwards, A. Fox a S. Najmi.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

- Mynegodd y Cynghorydd Handel Davies ei longyfarchiadau i Mr Wyn Jones o Lanymddyfri ar gael ei ddewis i chwarae i dîm rygbi'r Llewod ar y daith i Dde Affrica;
- Mynegodd y Cynghorydd Rob Evans ei longyfarchiadau i Ysgol Dafen, Llanelli ar gael statws '*First Global EntreCompEdu Pioneer School*" o blith y 52 gwlad a gymerodd ran yn y prosiect rhwng Ionawr 2021 a Mai 2021

4. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR:**

**4.1. 12FED MAI 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Mai 2021 gan eu bod yn gywir.**

**4.2. 19FED MAI 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021 gan eu bod yn gywir.**

5. **YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-**

**5.1. GORCHMYNION DATBLYGU LLEOL DRAFFT CANOL TREFI RHYDAMAN A CHAERFYRDDIN**

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2021 (cofnod 8) wedi ystyried adroddiad ar gynigion ar gyfer cyflwyno Gorchmynion Datblygu Lleol Drafft ar gyfer canol trefi Rhydaman a Chaerfyrddin i symleiddio'r broses gynllunio trwy ddileu'r angen am rai mathau o geisiadau cynllunio (ac eithrio adeiladau rhestredig) gan ganiatáu i ddatblygwyr fwrw ymlaen yn gyflymach a chyda sicrwydd, gan leihau costau. Os cânt eu mabwysiadu, byddai angen i'r cynigion gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a'u cymeradwyo ganddi.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol**

**"8.1 ystyried y sylwadau sydd wedi dod i law mewn perthynas â'r Gorchymyn Datblygu Lleol Drafft ar gyfer Canol Trefi Rhydaman a Chaerfyrddin.**

**8.2 cymeradwyo argymhellion yr adroddiad.**

**8.3 cymeradwyo cyflwyno'r Gorchymyn Datblygu Lleol (sy'n cynnwys argymhellion yr adroddiad hwn, a'r wybodaeth ddiweddaraf am dystiolaeth) i Lywodraeth Cymru gael cytuno arno (yn amodol ar asesiad boddhaol o'r effaith amgylcheddol).**

**8.4 rhoi awdurdod dirprwyedig i'r swyddogion wneud addasiadau teipograffyddol neu ffeithiol ansylweddol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Gorchymyn Datblygu Lleol a diweddaru'r sylfaen dystiolaeth a gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Gorchymyn Datblygu Lleol, a sicrhau bod unrhyw faterion ychwanegol o ran cydymffurfiaeth gyfreithiol hefyd yn cael eu hintegreiddio".**

## 6. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:

### 6.1. 26AIN EBRILL 2021

Cyfeiriodd y Cynghorydd John James at gofnod 7 o Gyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 26 Ebrill ynghylch datblygu hen safle Grillo ym Mhorth Tywyn ac at yr effaith yr oedd erydiad arfordirol yn ei chael ar yr ardal ac at unrhyw effaith bosibl a allai ei chael ar ddatblygiad y safle. Yn unol â hynny, estynnodd wahoddiad i Arweinydd y Cyngor gwrdd ag ef ar y safle o fewn y 28 diwrnod nesaf i weld y safleoedd.

Derbyniodd Arweinydd y Cyngor y gwahoddiad a rhoddodd sicrwydd bod y safle'n briodol i'w ddatblygu a bod y gwaith glanhau a'r gwaith ar diroedd presennol i gyd yn rhan o'i ddatblygiad. Cadarnhaodd y byddai'r trefniadau ar gyfer yr ymweliad yn cael eu gwneud yn ystod y dyddiau nesaf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2021.**

### 6.2. 24AIN MAI 2021

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 24 Mai 2021.**

## 7. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 8. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-

### 8.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB EVANS I'R CYNGHORYDD PHILIP HUGHES, AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei chael hi'n anodd gorfodi cyfyngiadau parcio ar linellau melyn igam-ogam y tu allan i'n hysgolion yn Sir Gaerfyrddin gan roi bywydau plant mewn perygl o farwolaeth neu anaf difrifol.

“Beth all Cyngor Sir Caerfyrddin ei wneud i orfodi cyfyngiadau parcio y tu allan i ysgolion a sicrhau bod disgyblion ym mhob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn ddiogel wrth gyrraedd yr ysgol ac wrth adael”

**Ymateb gan y Cynghorydd Phillip Hughes - yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd:-**

Diolch i'r Cynghorydd Evans am dy gwestiwn.

Gan weithio gyda'n partneriaid yn yr asiantaethau statudol, mae gan y Cyngor Sir gyfres o fesurau ac ymyriadau i sicrhau bod holl ddefnyddwyr ffyrdd yn ddiogel, yn enwedig pobl ifanc. Mae cyfres eang o fentrau peirianneg, gorfodi ac addysg ar waith i helpu i leihau'r risg i'r hen a'r ifanc.

Er enghraifft, o safbwynt peirianneg, dros y pedair blynedd diwethaf rydym wedi buddsoddi dros ddwy filiwn a hanner o bunnoedd mewn Llwybrau Diogel i Ysgolion trwy weithio gyda chymunedau i gynnig a chael cyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi parhau i fuddsoddi mewn cysylltiadau teithio llesol i annog pobl i gerdded a beicio mwy, gyda'r nod o leihau nifer y bobl sy’n teithio mewn car.

O safbwynt addysg, mae ein rhaglen addysg diogelwch ffyrdd yn cynnwys hyfforddiant penodol i bobl ifanc, megis hyfforddiant diogelwch ffyrdd mewn ysgolion, sy'n cynnwys, cerdded a beicio’n ddiogel. Yn ogystal, mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu i fodurwyr ynghyd ag ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd a datganiadau i'r cyfryngau trwy'r cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at beryglon wrth barcio yn ymyl ysgolion.

Mae ein Rhaglen Cerdded i'r Ysgol, er enghraifft, yn annog rhieni i gerdded, beicio neu fynd ar gefn sgwter i'r ysgol ac yn ôl adref gyda’u plant. Mae cerdded i'r ysgol o fantais i ddisgyblion, rhieni, yr ysgol a'r gymuned leol;

- Mae'n datblygu sgiliau cerdded yn ddiogel a sgiliau diogelwch ffordd;
- Lleihau tagfeydd traffig o gwmpas gatiau’r ysgol;
- Mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn fwy effro ac ar amser;
- Llai o allyriadau'n helpu i wella ansawdd aer;
- Mae hefyd yn hybu ymarfer corff cymedrol

O ran gorfodi, bu'r Cyngor Sir yn gweithio gyda Go Safe a'r Heddlu i ymgymryd â mentrau gostwng cyflymder. Er enghraifft, mae Dyfais Dangos Cyflymder yn cael ei defnyddio, a phan fydd modurwyr yn goryrru, bydd swyddogion Plismona Ffyrdd yn stopio'r modurwyr sy'n mynd yn gyflymach na'r terfyn cyflymder. Bydd y modurwyr yn cael dewis, sef naill ai derbyn dirwy â phwyntiau cosb neu siarad â'r plant a Swyddog Diogelwch Ffyrdd y Cyngor Sir.

O safbwynt parcio, mae'r Cyngor Sir, unwaith yn rhagor, yn gweithio gydag ysgolion a'r heddlu drwy gynnal ymweliadau ar y cyd ag ysgolion a defnyddio'r car camera. Pan gyflwynwyd y car, bu'r Cyngor yn gweithio gyda phlant ysgol i hyrwyddo'r fenter a threfnwyd cystadleuaeth i'r plant ysgol enwi'r car ac annog ymddygiad cyfrifol wrth barcio. Enillodd disgybl blwyddyn dau o Ysgol Brynsierfel y gystadleuaeth ac enwyd y car yn ‘Iolo Patrolo’.

Mae'r car camera wedi bod ar waith mewn ystod o leoliadau ledled y sir i fynd i'r afael â phryderon diogelwch ffyrdd ers iddo gael ei brynu yn 2019/20. Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn eithriadol oherwydd y pandemig, mae ymddygiadau wedi newid ac mae llai o bobl yn teithio oherwydd y cyfyngiadau angenrheidiol. Bydd ein hystod o ymyriadau yn parhau yn y dyfodol i gefnogi diogelwch ffyrdd gan gynnwys defnyddio'r cerbyd gorfodi.

Mae'n rhaid imi bwysleisio, os ydym am wella diogelwch ffyrdd, bydd angen sicrhau cydbwysedd bob amser a gweithio gyda chymunedau i gyflawni hyn gan ddefnyddio ystod eang o fentrau addysg, peirianneg a gorfodi.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Evans**
A all Cyngor Sir Caerfyrddin brynu car camera arall i orfodi troseddau parcio ar linellau igam-ogam melyn y tu allan i ysgolion gan mai dim ond un sydd gennym, ac mae'n dueddol o dorri, a bydd hefyd yn berthnasol i ymgyrch Cyngor Sir Caerfyrddin i gyfleu'r neges i berchnogion ceir bod parcio ar linellau igam-ogam melyn yn drosedd a gall achosi anaf difrifol neu farwolaeth i ddisgyblion. Dyma fy nadl Philip—bydd ceir camera patrôl yn patrolio'r ardaloedd hyn yn rheolaidd. Ni fydd un yn ddigonol, mae angen i ni gael un arall ac o bosib dau.

**Ymateb gan y Cynghorydd Philip Hughes - Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd:**
Mae'n gwestiwn o daro'r cydbwysedd fel y nodir yn fy ateb. Rhieni a gofalwyr disgyblion sydd fel arfer yn parcio o amgylch ysgolion a dyna pam ei bod hi'n bwysig gweithio gydag ysgolion a chymunedau ar yr ystod o fesurau i ddylanwadu ar ymddygiadau. Yn ffodus, mae nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt a digwyddiadau a fu bron â digwydd y tu allan i giât yr ysgol yn ystod oriau ysgol dros y tair blynedd diwethaf yn fach iawn. Ond, mae'n rhaid ychwanegu, ni fyddwn yn hunanfodlon a byddwn yn parhau i addysgu, llunio a gorfodi lle bo angen. Gall pob un ohonom apelio at ein cymunedau, rhieni a gofalwyr i feddwl sut yr ydym yn teithio i'r ysgol ac i ymddwyn yn gyfrifol er mwyn sicrhau diogelwch ein pobl ifanc.

O ran ail gar, dyma fater y byddaf yn ei drafod a byddaf yn cysylltu â ti Rob i roi'r wybodaeth ddiweddaraf, os caf.

## 9. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar yr agenda o dan 11.1 – 11.3 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**